OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2005 Rhif 424 (Cy.42)

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Rheoliadau Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 (Arolygiadau Gofal Iechyd) (Cymru) 2005

Wedi'u gwneud	- -	*1 Mawrth 2005*
Yn dod i rym	- -	*31 Mawrth 2005*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 75(1) a (2) ac adran 195 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003(**1**) yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 (Arolygiadau Gofal Iechyd) (Cymru) 2005, a deuant i rym ar 31 Mawrth 2005.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â Chymru yn unig.

(3) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "y Cynulliad" ("*the Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

ystyr "darparwr gwasanaeth" ("*service provider*") yw person sy'n darparu gofal iechyd i gorff GIG Cymru, neu sydd wedi gwneud hynny neu a fydd yn gwneud hynny(**2**); ac

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003.

Y pŵer i ofyn am esboniad

2.—(1) Caiff y Cynulliad, neu bersonau a awdurdodwyd ganddo, ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson a ragnodwyd ym mharagraff (4) i ddarparu esboniad i'r Cynulliad neu i bersonau a awdurdodwyd felly (yn ôl y digwydd)—

(**1**) 2003 p.43. *Gweler* adran 148 o'r Ddeddf am y diffiniad o "prescribed".

(**2**) *Gweler* adran 149 o'r Ddeddf am sut i ddehongli cyfeiriadau at ofal iechyd a ddarperir gan un person ar gyfer person arall. *Gweler* adran 45(2) o'r Ddeddf am y diffiniad o "*health care*". *Gweler* adran 148 o'r Ddeddf am y diffiniad o "*Welsh NHS body*".